

CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Dydd Mercher 14 Mehefin 2023

**AELODAU’N
BRESENNOL:**

Trevor Baker, David Blackwell, Chris Britten, Mairead Canavan, Peter Cate, Tim Exell, Mari Gibbs, y Cyng. Emma Goodjohn, Sarah Jenkins, Rhodri Jones, Rhys Angell Jones, Martin Price, Terry Vaughan-Taylor

Hefyd yn bresennol: Rachel Cox, Elaine Crapnell, David Davies, Lesley Evans, Gemma Gulwell-Jones, Liz Jones, Lisa Lewis, James Mansfield, Nicola Monckton, Emma Ryles, Lisa Soderland, Joanna Ware,

Eite m	Mater	Trafodaeth	Cam Gweithr edu
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Rhiannon Birch, Trevor Brown, Vince Browne, Norman Craggs, Ruth Foster, Matt Gilbert, Lorraine Lancaster, Jonathan Ling, Colin Smith, Paula Vaughan	
2.	Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd	Etholwyd David Blackwell yn Gadeirydd Fforwm y Gyllideb ac etholwyd Norman Craggs yn Is-gadeirydd. Derbyniwyd enwebiadau gan Chris Britten a'u heiliwyd gan Martin Price.	
3.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol Materion yn codi	Cytunwyd fel cofnod cywir. <u>Adolygiad Ariannu Ysgolion Arbennig</u> – Ar yr agenda. <u>Adborth i gynigion cyllideb 23/24</u> - Trosglwyddodd Dave Blackwell yr holl bryderon ac ymholiadau gan aelodau'r Fforwm Cyllideb i'r Pennaeth Cyllid Matt Bowmer, ynghylch adroddiad cyllideb refeniw 2023/24.	
4.	Aelodaeth Fforwm y	Rhannwyd gwybodaeth am aelodaeth a chyfansoddiad y Fforwm Cyllideb â'r fforwm.	

	Gyllideb a'r cyfansoddiad	<p>Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd i'r fforwm cyllideb, sef Jonathan Ling (Ysgol Gyfun y Bont-faen), Ruth Foster (Ysgol Gynradd Evenlode) a Peter Cater (Ysgol Gynradd y Llywodraethwr Jenner Park).</p> <p>Dymuna'r Cadeirydd ddiolch i Vince Browne am ei gyfraniad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion dros lawer o flynyddoedd, yn arbennig ei gyfraniad at Her Ariannu Llywodraeth Cymru am gyllid gwell i ddisgyblion Bro Morgannwg.</p>	
5.	Rhaglen waith y Fforwm Cyllideb 23/24	<p>Cytunwyd ar Raglen Waith Fforwm y Gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Parhau â her ariannu LIC ar gyfer cyllid teg i ddisgyblion ym Mro Morgannwg o'i gymharu â gweddill Cymru. 2. Adolygiad arfaethedig o'r Fformiwla Ariannu Ysgolion Arbennig 3. Adolygiad o'r gronfa gyfun Anghenion Ychwanegol ar gyfer ysgolion cynradd. <p><u>Adolygiad o'r Gronfa Anghenion Ychwanegol</u> - Rhoddodd David Davies a Liz Jones yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am yr angen i adolygu'r Gronfa Anghenion Ychwanegol cyfun ar gyfer Ysgolion Cynradd. Bydd David Davies yn anfon e-bost at Benaethiaid y panel CAY i ofyn iddynt ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r gronfa.</p>	DD
6.	Balansau Ysgolion	<p>Cyflwynodd Nicola Monckton wybodaeth am falansau ysgolion a gariwyd ymlaen ar ddiwedd mis Mawrth 2023, yn ogystal â data hanesyddol sy'n mynd yn ôl i fis Mawrth 2015.</p> <p>Roedd balansau ysgolion yn amrywio rhwng £2M a £3M am nifer o flynyddoedd tan fis Mawrth 2020 pan oedd balansau'n gostwng i £839,000 yn gyffredinol, pan oedd pryder ar y pryd y gallai nifer o ysgolion syrthio i sefyllfa ddiffyg yn y blynyddoedd canlynol. Fodd bynnag, trwy gydol pandemig Covid-19, cynyddodd balansau ysgolion yn sylweddol o ganlyniad i gau ysgolion a symiau mawr o arian grant ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Erbyn mis Mawrth 2021 roedd balansau ysgolion wedi cyrraedd £6.3M, ac erbyn mis Mawrth 2022 y ffigur oedd £12.8M.</p>	

		<p>Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 (Mawrth 2023), roedd balansau ysgolion wedi gostwng ychydig dros £6M i £6.7M, sef y gostyngiad mwyaf mewn balansau ysgolion a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.</p> <p>Daeth blwyddyn ariannol 2022/23 i ben gyda 9 ysgol mewn sefyllfa ddiffyg: 1 ysgol uwchradd ac 8 ysgol gynradd. Roedd y diffygion yn amrywio o £6,000 i £588,000.</p> <p>Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 roedd 32 o ysgolion gyda balansau dros 5% o'r gyfran o'r gyllideb, a 10 ysgol gyda balansau oedd yn fwy na 10% o'r gyfran o'r gyllideb. Y dyddiad cau i gyflwyno cyllidebau wedi'u cydbwysu a chynlluniau adfer ar gyfer 2023/24 yw 30 Mehefin. Hyd nes y derbynnir yr holl gyllidebau, a'u cymeradwyo gan gyrrff llywodraethu, ni ellir adrodd am y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â'r alldro a ragwelir ar gyfer ysgolion ym mis Mawrth 2024.</p> <p>Mae NM i gylchredeg alldro ysgolion a ragwelir i'r Fforwm Cyllideb ar ôl derbyn yr holl gyllidebau awdurdodedig cyn cyfarfod mis Medi.</p>	NM
7.	Diweddariad am Grantiau	<p>Dosbarthodd Nicola Monckton ddogfen ynghylch arian grant a ddilyswyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.</p> <p>Hysbyswyd ysgolion am ddyraniadau o dan y grantiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Grant Dysgu Carlam • Grant Ôl-16 • Grant Pontio Ôl-16 • Grant Datblygu Disgyblion • Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol • Grant Dysgu Proffesiynol • Grant Cyflog Athrawon (ar gyfer dyfarniad Medi 22) • Grant Gweithredu ADY • Cyllid Cydweithio â Chonsortia <p>Nid yw hysbysiad wedi'i dderbyn eto mewn perthynas â</p> <ul style="list-style-type: none"> • Chyllid Dilyniant Dysgwyr Ôl-16 • Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) <p>Cafodd y fforwm wybod hefyd am unrhyw hysbysiadau a dderbyniwyd hyd yma o gyllid grant addysg a weinyddir yn ganolog.</p>	

		Cododd Chris Britten bryder am yr oedi wrth dderbyn hysbysiad am y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a lefel y gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio. Dywedodd Trevor Baker fod y mater hwn eisoes wedi'i godi gyda Chonsortium Canolbarth y De.	
8.	Adolygiad o'r fformiwla ariannu ysgolion arbennig	<p>Rhoddodd Liz Jones yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y cynlluniau i adolygu'r fformiwla ariannu ysgolion arbennig a dywedodd y byddai grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector prif ffrwd.</p> <p>Bydd y gweithgor yn cynnwys Liz Jones, David Davies, Chris Britten a Rhys Angell Jones, gyda chefnogaeth gan Nicola Monckton. Bydd NM yn e-bostio ysgolion prif ffrwd i chwilio am Benaethiaid gwirfoddol i fod yn rhan o'r grŵp. Bydd Liz Jones yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr adolygiad i gyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb.</p>	NM LJ
9.	Fformiwlâu Ariannu Ysgolion	<p>Dosbarthodd Nicola Monckton y fformiwla ariannu Ysgolion Prif Ffrwd a'r fformiwla ariannu Ysgolion Arbennig i'r grŵp.</p> <p>Yr unig newid mawr oedd cyflwyno'r arbedion effeithlonrwydd i ysgolion.</p>	
10.	Unrhyw fusnes arall	<p>Cyllid ychwanegol i ADY mewn ysgolion prif ffrwd</p> <p>Dywedodd Trevor Baker wrth y fforwm fod y Cyngor bellach wedi cau ei gyfrifon ar gyfer 2022/23 a'i fod wedi cael alldro gyda thanwariant yn erbyn cyllideb gyffredinol 2022/23. Mae £850,000 o'r tanwariant hwn wedi'i glustnodi ar gyfer ADY mewn ysgolion prif ffrwd. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i ysgolion prif ffrwd trwy fformiwla.</p> <p>Rhannu elw Big Fresh Catering Company</p> <p>Rhoddodd Trevor Baker wybod i'r fforwm bod y Big Fresh Catering Company wedi gwneud elw ym mlwyddyn ariannol 2022/23 ac o ganlyniad, bydd £300k yn cael ei roi yn ôl i ysgolion Bro Morgannwg. Bydd pob ysgol a oedd gyda'r BFCC yn 22/23 yn derbyn cyfran elw o £4k. Yn ogystal mae £100k arall ar gael i ysgolion wneud cais am gynlluniau penodol.</p> <p>Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro yn symud ymlaen o ran ymgyrch Ariannu Addysg</p>	

Rhoddodd Martin Price ddiweddariad i'r Fforwm am y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro o ran cyllid addysg gan Lywodraeth Cymru. Bydd diweddariad gan CLIYF yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 15 Mehefin 2023 ynglŷn â'r gwaith hwn.

Nid yw CLIYF yn beirniadu Cyngor y Fro, ond yn ceisio tegwch o ran cyllid Llywodraeth Cymru i ysgolion yn y Fro.

1. Mae CLIYF yn gweithio ar y cyd â Chymdeithasau Llywodraethwyr eraill ledled Cymru ar ddull deiseb gyda'r nod o godi digon o lofnodion i sbarduno dadl yn y Senedd ynghylch ariannu Addysg ledled Cymru.
2. Mae'r CLIYF hefyd yn trafod â chyfreithwyr ynghylch a ellid gweithredu adolygiad barnwrol o effaith fformiwla LIC ar Fro Morgannwg ar gyfer ariannu Addysg sy'n golygu bod disgyblion Bro Morgannwg yn cael eu hariannu'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Byddai adolygiad barnwrol yn canolbwyntio ar y ffactorau o fewn y fformiwla a sefydlwyd 30 mlynedd yn ôl, a hefyd tegwch y fformiwla sy'n creu loteri cod post gan olygu bod cyllid yn cael ei bennu yn ôl ble mae disgyblion yn byw ac nid yn ôl gwir gost addysg. Mae cynsail yma oherwydd bod addysg ôl-16 a Dechrau'n Deg ill dau yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fesul dysgwr.

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf - Ar fore Mercher, 9.30am ar Microsoft Teams

- 20 Medi 2023
- 29 Tachwedd 2023 (gwahoddiad i'r arweinydd, y Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr)
- 6 Mawrth 2024